

# Meddygfa Parc Glas

Dr Angharad Wyn Williams, Dr Huw Lloyd Evans & Dr Teleri Mair Jones

[www.parcglassurgery.co.uk](http://www.parcglassurgery.co.uk)

Meddygfa Parc Glas, Bethel, Bodorgan, LL62 5NL

Rhif ffôn: 01745 448700 / Ffacs: 01407 840997

Meddygfa Maelog  
Llanfaelog  
LL63 5SU  
Ffôn: 01407 810313  
Ffacs: 01407 811340

Meddygfa Bronllys  
Gaerwen  
LL60 6JN  
Ffôn: 01248 421645  
Ffacs: 01248 422382

## Polisi Preifatrwydd

### 1. Rhagarweiniad.

Mae'r polisi preifatrwydd hwn yn nodi'r ffordd y mae Dr Angharad Wyn Williams, Dr Huw Lloyd Evans a Dr Teleri Mair Jones yn prosesu eich gwybodaeth bersonol. Mae'n delio â sut rydym yn casglu gwybodaeth, beth rydym yn ei wneud gyda'r wybodaeth, sut rydym yn ei diogelu a pha reoliadau neu hawliau sydd gennych chi.

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd ein cleifion ac unrhyw un sy'n rhyngweithio gyda ni a byddwn yn trin pob gwybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn ofalus.

Rydym yn addo:

- Rhoi gwybod i chi pam ein bod yn casglu gwybodaeth bersonol, sut rydym yn gwneud hynny ac ar gyfer beth rydym yn ei defnyddio.
- Casglu'r wybodaeth rydym ei angen i ddarparu'r gwasanaeth i chi yn unig.
- Cadw'r wybodaeth bersonol yn gyfredol a sicrhau ei bod yn ddiogel.

Darllenwch y Polisi Preifatrwydd hwn yn ofalus er mwyn i chi ddeall sut rydym yn prosesu eich data personol. Trwy roi eich data personol i ni neu drwy ddefnyddio ein gwasanaethau neu'r wefan hon rydych yn derbyn neu'n cydsynio i'r arferion yn y Polisi Preifatrwydd hwn.

Efallai y byddwn yn newid y polisi hwn o dro i dro. Mae'r dyddiad y diweddarwyd y polisi hwn ddiwethaf wedi'i nodi ar ddiwedd y ddogfen hon.

Fel rheolydd data, rydym yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Diogelu Data 2018, Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 a'r Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (Cyfarwyddeb EC) 2016 (GDPR). Rydym hefyd yn cydymffurfio â phob canllaw cyfrinachedd clinigol perthnasol.

Rydym wedi'n cofnodi ar y Gofrestr Diogelu Data ICO o dan y rhif cofrestru Z6508439.

## 2. Pwy ydym ni?

Yn y polisi hwn, mae cyfeiriadau at Dr Angharad Wyn Williams, Dr Huw Lloyd Evans a Dr Teleri Mair Jones neu Feddygfa Parc Glas yn cyfeirio at Feddygfa Parc Glas, Bethel, Bodorgan, Ynys Môn, LL62 5NL.

## 3. Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu?

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi er mwyn ein galluogi i ddarparu'r gwasanaethau neu gyflawni rôl gyda ni. Gall hyn gynnwys:

- Enw a chyfeiriad, statws priodasol, hanes teulu a manylion ynghylch unrhyw bŵer atwrnai parhaus
- Cyfeiriad e-bost a Rhifau Ffôn:
- Y wlad rydych yn byw ynddi, dyddiad geni, Rhifau Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a ble bo'n berthnasol eich dewis iaith.
- Manylion am eich cyflogaeth.
- Enw a manylion cyswllt eich perthynas agosaf. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau os ydych chi'n darparu unrhyw wybodaeth i ni am unigolyn arall, ei fod yn ymwybodol o delerau'r polisi preifatrwydd hwn.
- Gan eich rhiant neu warcheidwad os ydych o dan 16 oed. Gall hyn gynnwys manylion am unrhyw sefydliad addysgol rydych yn ei fynychu.
- Cofnodion ynghylch galwadau ffôn rydym yn eu derbyn neu eu gwneud.
- Ffotograffau
- Manylion am wasanaethau a thriniaeth rydych wedi'u cael gennym ni.
- Adroddiadau neu nodiadau ar eich iechyd neu unrhyw driniaeth a gofal rydych wedi'i gael neu ei angen.
- Adborth cleifion a gwybodaeth am ganlyniad triniaeth, rydych chi'n ei ddarparu.
- Gwybodaeth am gwynion a digwyddiadau.
- Pan fyddwch yn edrych ar ein gwefan, rydym yn casglu gwybodaeth am eich cyfeiriad IP a'r tudalennau rydych yn edrych arnynt. Nid yw hyn yn dweud wrthym pwy ydych chi na'ch cyfeiriad, oni bai eich bod yn dewis rhoi'r wybodaeth honno.
- Gwybodaeth o archwiliad cleifion yr ydych yn cymryd rhan ynddynt.

**Byddwn hefyd yn casglu data Arbennig - a elwir weithiau'n wybodaeth bersonol sensitif. Mae hyn yn cynnwys:**

- Gwybodaeth am eich hil, tarddiad ethnig a'ch crefydd.
- Gwybodaeth am eich iechyd corfforol neu iechyd meddwl, data genetig neu biometrig.
- Gwybodaeth am eich bywyd rhywiol neu dueddfryd rhywiol.
- Gwybodaeth am risg a diogelu.

#### 4. **Sut rydym yn casglu Gwybodaeth bersonol?**

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol yn y ffyrdd canlynol:

- Pan rydych yn holi am un o'n gwasanaethau neu driniaethau.
- Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth drwy gwblhau ffurflen wrth gofrestru neu wybodaeth a ddarperir ar unrhyw adeg arall.
- Pan fyddwch yn cyfathrebu gyda ni dros e-bost, ffôn neu ffyrdd eraill.
- Yn ystod yr amser y darperir gwasanaethau i chi.
- Pan fyddwch yn cysylltu â ni dros e-bost, ffôn a'r cyfryngau cymdeithasol neu mewn unrhyw ffordd arall.
- Pan fyddwch yn edrych ar ein gwefan.
- Pan fyddwch yn cwblhau ffurflen neu arolwg i ni.
- Gwybodaeth gan y gwasanaethau brys, awdurdod lleol a sefydliadau cyhoeddus eraill.
- Gwybodaeth gan drydydd parti, gan gynnwys partneriaid busnes, darparwyr gwasanaeth, isgcontractwyr technegol, gwasanaethau tâl a darparu, pan fyddwch wedi rhoi caniatâd i rannu'r wybodaeth gyda ni.
- Gan wasanaethau sydd ar gael yn gyhoeddus i gadw'ch gwybodaeth yn gyfredol, er enghraifft cronfa ddata cenedlaethol y GIG.
- Pan fyddwch yn cymryd rhan mewn fforymau trafod neu unrhyw gyfrwng cymdeithasol arall ar ein safle neu safle sy'n cael ei reoli gennym ni.
- Pan fyddwch yn cymryd rhan mewn digwyddiad cymdeithasol.

#### 5. **Gwybodaeth Bersonol a Ddarperir gan Ffynonellau eraill.**

Gallwn gasglu data personol amdanoch chi o ffynonellau eraill a gall y rhain gynnwys:

- Gan eich perthynas agosaf neu aelod arall o'r teulu.
- Gwybodaeth a ddarparwyd gan feddygon, clinigwyr a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill, ysbytai, clinigau a darparwyr gofal iechyd eraill.
- Gan eich cyflogwr pan maent yn darparu gwybodaeth.
- Cyfieithwyr a dehonglwyr.
- Unrhyw weithiwr proffesiynol iechyd neu sefydliad iechyd sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer parhad eich gofal.
- Gwybodaeth gan Awdurdod Lleol neu'r Heddlu.

#### 6. **Sut ydym ni'n defnyddio'r wybodaeth a pham rydym ei hangen?**

Rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol er mwyn darparu'r gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol uniongyrchol i gleifion unigol ac i fodloni ein hymrwymadau cytundebol i chi. Gall hyn gynnwys:

- **Prosesu-** bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r wybodaeth i gyflawni unrhyw gais y byddwch chi neu rywun arall ar eich rhan yn ei wneud i gael un o'n gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol neu ddata perthnasol.

- **Cytundeb** - os oes gennym gytundeb gyda chi byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol i gyflawni'r cytundeb hwnnw.
- **Cydsyniad** - yn gyffredinol byddwn ond yn gofyn am eich cydsyniad i brosesu eich gwybodaeth bersonol os nad oes sail gyfreithiol arall i'r broses. Pan fyddwn angen eich cydsyniad, byddwn yn sicrhau eich bod yn cael gwybod cymaint â phosibl ac y byddwn yn defnyddio'r cydsyniad am y rheswm rydych wedi'i roi i ni'n unig. Byddwch yn gallu newid eich meddwl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni ar y cyfeiriad ym mharagraff 13. Bydd unrhyw e-bost neu neges destun yn cynnwys dolen i chi allu gwneud hynny.
- **Er budd y cyhoedd** - byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol wrth gyflawni perfformiad y dasg er budd y cyhoedd, sy'n cynnwys darpariaeth gofal iechyd neu ofal cymdeithasol uniongyrchol.
- **Angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol** - i asesu p'un a ydych chi'n gallu gweithio, darpariaeth iechyd neu ofal cymdeithasol i chi, diagnosis meddygol, neu reoli systemau iechyd a gofal cymdeithasol.
- **Angenrheidiol i amddiffyn hawliad cyfreithiol neu achos llys.**
- **Er budd hanfodol** - ble mae'n ofynnol diogelu eich budd hanfodol neu fudd unigolyn arall.
- **Er budd y cyhoedd** - fel arfer mae hyn yn unol ag unrhyw gyfreithiau perthnasol megis diogelu yn erbyn anonestrwydd, camymddygiad neu ymddygiad amhriodol difrifol arall.
- **Gwybodaeth rydych wedi'i wneud yn gyhoeddus.**
- **Proffilio** - efallai y byddwn yn defnyddio dulliau proffilio a sgrinio i ddarparu gwasanaeth gwell i gleifion. Mae proffilio'n ein helpu i dargedu adnoddau'n fwy effeithiol drwy gael mewnwleidiad i gefndir cleifion a'n helpu i feithrin perthnasau sy'n briodol i'w hanghenion.

## 7. **Budd Cyfreithlon**

Mae Meddygfa Parc Glas hefyd yn prosesu eich data pan mae er ein budd cyfreithlon i wneud hynny a phan nad yw'r buddion hynny'n diystyru eich hawliau. Mae'r buddion cyfreithlon hyn yn cynnwys:-

- Rhoi gwybodaeth i chi am wasanaethau.
- Cadw ein cofnodion yn gyfredol.
- Ar gyfer ymchwil a dadansoddiad ystadegol ac i'n galluogi ni i fonitro ein gwasanaethau a'u gwella.
- Monitro sut rydym yn bodloni ein perfformiad clinigol a'n perfformiad nad yw'n glinigol yn achos darparwyr gofal iechyd.
- Rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda phobl neu sefydliadau er mwyn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol neu reoli neu i'n galluogi i weithredu fel sefydliad.
- Cyflawni cyfreithiau sy'n berthnasol i ni a'r trydydd parti rydym yn gweithio gyda nhw.
- Cymryd rhan mewn unrhyw gyfuniad neu fod yn destun unrhyw gyfuniad.
- Rheoli ein perthnasau gyda chi a thrydydd parti sy'n ein cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaethau i chi.

## 8. Pwy fydd yn gweld y wybodaeth?

Dim ond ein staff fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth ac ond ble bydd yn briodol o ran y rôl maent yn ei gyflawni. Ni fyddwn byth yn gwerthu eich gwybodaeth nac yn gadael i sefydliadau eraill ei defnyddio ar gyfer eu dibenion nhw. Byddwn ond yn rhannu eich gwybodaeth bersonol:

- Os yw cydsyniad yn angenrheidiol, byddwn wedi cael eich cydsyniad i wneud hynny a byddwn yn darparu'r wybodaeth am y rheswm penodol y mae'r cydsyniad wedi'i roi. Byddwch yn cael y cyfle i dynnu'ch cydsyniad yn ôl pan fyddwch yn cwblhau'r ffurflen yr ydym yn ei ddefnyddio i gasglu'r data neu gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl drwy gysylltu â ni ar y cyfeiriad a nodir ym mharagraff 13, ar unrhyw adeg.
- Meddygon, clinigwyr, ysbytai, clinigau, canolfannau diagnostig a thriniaeth a darparwyr gofal iechyd eraill i ddarparu ein gwasanaethau a pharhad gofal iechyd.
- Ymatebwyr cyntaf, gwasanaeth ambiwlans, diogelu, ymgwymerwyr, crwner a chartrefi gofal.
- Ble mae'n ofynnol i ddiogelu eich budd hanfodol (h.y eich bywyd neu eich iechyd)
- Sefydliadau eraill rydych yn perthyn iddynt i gadarnhau eich hawl i gael ein gwasanaethau.
- Sefydliadau neu bobl y mae'n rhaid i ni yn ôl y gyfraith neu reoliadau rannu eich gwybodaeth bersonol gyda nhw. Gall y rhain fod yn gronfeydd data cenedlaethol, cofrestr prawf sgrinio, awdurdodau'r llywodraeth a sefydliadau'r GIG.
- Yr heddlu neu asiantaethau gorfodaeth cyfraith eraill i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau os oes rhaid i ni wneud hyn yn ôl y gyfraith neu o dan orchymyn llys.
- Ble rydym yn defnyddio sefydliadau eraill i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan ar gyfer prosesu, postio, dosbarthu, ateb cwestiynau cleifion am wasanaethau, anfon post a negeseuon e-bost, dadansoddi data, asesu a phroffilio neu brosesu taliadau cardiaid credyd / debyd.
- I sefydliadau sydd wedi gofyn i ni ddarparu gwybodaeth fel y gallant ddarparu gwasanaethau neu gynnrych yr ydych wedi gofyn amdano.
- Sefydliadau sy'n darparu systemau TG, cefnogaeth TG a chynnal o ran systemau TG y mae gwybodaeth yn cael ei chadw arni.
- Wrth ddefnyddio archwilwyr a chynghorwyr proffesiynol.
- Pan fydd yn ofynnol yn gyfreithiol i ni, neu oherwydd cais cyfreithlon gan awdurdod llywodraethol neu orfodaeth cyfraith.
- Os ydym yn uno â sefydliad arall neu'n ffurfio endid newydd

Pan ddefnyddir prosesydd data trydydd parti, rydym yn sicrhau ei fod yn gweithredu o dan gontract sy'n cynnwys cyfrinachedd a diogelwch data personol a'u rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data.

## 9. Diogelwch.

Mae diogelwch eich gwybodaeth bersonol yn bwysig iawn i ni. Rydym yn diogelu'r holl ddata personol rydym yn ei gadw ac yn sicrhau bod gennym fesurau sefydliadol a thechnegol priodol ar waith i atal mynediad heb awdurdod neu brosesu data personol yn anghyfreithlon ac i atal data rhag cael ei golli, ei ddinistrio neu ei ddifrodi.

Mae'r holl wybodaeth rydych chi'n ei darparu'n cael ei gadw ar weinyddwr diogel a weithredir gan GIG Cymru ac a ddarperir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru . Ble rydych wedi dewis cyfrinair sy'n eich galluogi i gael mynediad at ein gwasanaethau ar-lein, rydych chi'n gyfrifol am gadw'r cyfrinair hwn yn gyfrinachol. Gofynnwn nad ydych yn rhannu eich cyfrinair gydag unrhyw un.

Yn anffodus, nid yw trosglwyddiad gwybodaeth drwy'r rhyngwrwyd yn hollol ddiogel. Er ein bod yn gwneud ein gorau i ddiogelu eich data personol, ni allwn sicrhau diogelwch eich data a drosglwyddir i'n gwefan; mae unrhyw drosglwyddiad ar eich menter eich hun. Unwaith rydym wedi derbyn eich gwybodaeth, byddwn yn defnyddio gweithdrefnau a nodweddion diogelwch caeth i geisio atal mynediad heb awdurdod. Mae'r holl ddata personol yn cael ei brosesu yn y DU ond ar gyfer cynnal a chynnal a chadw TG gall eich gwybodaeth fod y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

Gallwch weld dolenni at wefannau trydydd parti ar ein gwefan. Dylai fod gan y gwefannau hyn eu polisiau preifatrwydd ei hunain, a dylech eu gwirio. Nid ydym yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd am eu polisiau gan nad oes gennym unrhyw reolaeth drostynt.

## 10. Eich Hawliau:

Mae gennych yr hawliau canlynol:

- Tryloywder ynghylch sut rydym ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol (yr hawl i gael eich hysbysu).
- I ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol rydym yn ei gadw amdanoch chi, a fydd yn cael ei ddarparu i chi cyn pen mis (hawl i fynediad).
- Diweddarau neu ddiwygio'r wybodaeth bersonol rydym yn ei gadw amdanoch chi (hawl i gywiriad).
- I ofyn i ni stopio defnyddio eich gwybodaeth bersonol (hawl i gyfyngu ar brosesu).
- Gofyn i ni dynnu eich gwybodaeth bersonol o'n cofnodion (hawl i gael eich anghofio).
- Gofyn i ni dynnu eich gwybodaeth bersonol ar gyfer dibenion marchnata (hawl i wrthod).
- I gael eich gwybodaeth bersonol a'i ail ddefnyddio ar gyfer eich dibenion eich hun (hawl i drosglwyddo).
- Peidio â bod yn destun penderfyniad yn seiliedig ar brosesu awtomataidd.

Gallwch gysylltu â ni ynghylch unrhyw un o'r hawliau hyn drwy'r cyfeiriad ym mharagraff 13. Er mwyn diogelu eich preifatrwydd, efallai y byddwn yn gofyn i chi brofi pwy ydych chi cyn i ni gytuno i ymateb i unrhyw gais. Nid oes unrhyw dâl am gais a byddwn yn ymateb i'r cais cyn pen mis.

Os nad ydych yn fodlon gyda'r ffordd rydym yn delio gyda'ch cais, gallwch gysylltu â'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth ar 0303 123 1113 neu drwy eu gwefan [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).

## 11. Cwcis.

Mae ein gwefan yn defnyddio cwcis i'ch gwahaniaethu chi oddi wrth ddefnyddwyr eraill ein gwefan. Mae hyn yn ein helpu ni i roi profiad da i chi wrth i chi bori ein gwefan ac yn caniatáu i ni wella ein gwefan. Drwy barhau i bori'r wefan, rydych yn cytuno i'n defnydd o cwcis.

Cwcis yw ffeil bach o lythrennau a rhifau rydym yn ei gadw ar eich porwr neu ddisg galed eich cyfrifiadur os ydych yn cytuno. Mae cwcis yn cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo i ddisg galed eich cyfrifiadur.

Rydym yn defnyddio'r cwcis canlynol:

- **Cwcis gofynnol.** Cwcis yw'r rhain sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu ein gwefan. Maent yn cynnwys, er enghraifft, cwcis sy'n caniatáu i chi fewngofnodi i feysydd diogel ein gwefan, defnyddio'r opsiwn siopa neu ddefnyddio'r gwasanaethau e-filio.
- **Cwcis Dadansoddol/perfformiad.** Mae'r rhain yn caniatáu i ni gydnabod a chyfrif nifer yr ymwelwyr a gweld sut mae ymwelwyr yn symud o amgylch ein gwefan pan fyddant yn ei defnyddio. Mae hyn yn ein helpu ni i wella'r ffordd mae ein gwefan yn gweithio, er enghraifft, drwy sicrhau bod defnyddwyr yn dod o hyd i'r hyn maent yn chwilio amdano'n rhwydd.
- **Cwcis swyddogaethol.** Fe ddefnyddir y rhain i'ch adnabod chi pan fyddwch yn dychwelyd at ein gwefan. Mae hyn yn caniatáu i ni bersonoli ein cynnwys i chi, eich cyfarch yn ôl eich enw a chofio eich dewisiadau (er enghraifft eich dewis iaith neu ranbarth).
- **Cwcis sy'n targedu.** Mae'r cwcis hyn yn cofnodi eich ymweliad â'n gwefan, y tudalennau rydych wedi edrych arnynt a'r dolenni rydych wedi'u dilyn. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud ein gwefan a'r hysbysebion a ddangosir arni'n fwy perthnasol i'ch diddordebau. Efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gyda thrydydd parti ar gyfer y diben hwn.

## 12. Cadw gwybodaeth.

Rydym yn cadw'ch gwybodaeth gyhyd ag sy'n angenrheidiol at bob diben yr ydym yn ei defnyddio. Rydym yn defnyddio'r canllawiau canlynol:-

- Unrhyw derfynau amser a bennir gan y gyfraith neu a argymhellir gan reolyddion, cyrff neu sefydliadau proffesiynol.
- Amserlen ar gyfer gwneud hawliad.
- Cyhyd â bod gennym angen rhesymol ar gyfer rheoli ein perthynas â chi neu gynnal ein sefydliad.

## 13. Sut i gysylltu â ni?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y polisi preifatrwydd hwn neu eich hawliau ynglŷn â phrosesu eich gwybodaeth bersonol, neu os ydych yn dymuno gwneud cwyn, cysylltwch â:

Mrs S. L. Williams, Rheolwr Practis, Meddygfa Parc Glas, Bethel, Bodorgan, Ynys Môn LL62 5NL [Sharon.Williams26@wales.nhs.uk](mailto:Sharon.Williams26@wales.nhs.uk) Ffôn: 01407 840294

Diweddarwyd y polisi hwn ddiwethaf 12 Tachwedd 2019.